# EVANS, THOMAS (1714? - 1779), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Thomas Evans
**Dyddiad geni:** 1714?
**Dyddiad marw:** 1779
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mynyddislwyn. Daeth at grefydd dan genhadaeth James Davies (a fu farw 1760), ac ymaelododd ym Mhenmain. Dechreuodd bregethu, ac aeth i'r academi yn Hwlffordd dan Evan Davies, 1741-3. Yn 1743, derbyniodd alwad gan ' Gynulleidfa sir Feirionnydd,' bellach wedi ei lleoli yn Llanuwchllyn, ond ar 19 Mehefin 1745 yr urddwyd ef (*Cofiadur* 1923 - o lyfr eglwys y Cilgwyn). Lletyai yn Nhalardd (Cynllwyd - y t y lletyodd Howel Harris ynddo ar ei ymweliad cyntaf â Llanuwchllyn yn 1740); priododd â chwaer Thomas Owen o Dalardd, a chadwai ysgol dda yno. Yn 1745-6, codwyd y capel yn Rhos-y-fedwen ('Yr Hen Gapel,' y cyntaf yn yr holl sir). Yn 1756 neu 1757 symudodd Thomas Evans i Ddinbych; bylchog iawn yw'r cofnodion ar ei hanes yn Ninbych, ond y mae'n sicr ei fod yno hyd 1762 beth bynnag (rhestr Jeremy o weinidogion, N.L.W. MS. 362), a'r tebyg yw iddo aros yno hyd 1764, oblegid yn 1763 y bu farw ei ragflaenydd ym Mixenden (Efrog). Ym Mixenden y bu hyd ei farwolaeth, 25 Mai 1779, 'yn 65 oed.' Mewn t o'r enw ' The Old Hall ' yr oedd yn byw, a chadwai ysgol yno Ystyrid ef yn Ariad. Credir mai efe a gychwynnodd yr ysgol Sul gyntaf yn sir Efrog. Gadawodd gymynrodd i'w hen eglwys ym Mhenmain at wella cyflog y gweinidogion.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 23, 413; iv, 44

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 1937, 82-4

Miall, *Congregationalism in Yorkshire a chapter of modern church history* (1868), 318


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734446


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu